# DINESYDD

## Chwefror

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 103


# HAWL HYWEL



Dafydd a Catrin yng nghyntedd Coed y Gof

Mae'r achos llys lle mae Awdurdod Addysg De Morgannwg yn ceisio cynnal ei waharddiad llys yn erbyn yr actor Dafydd Hywel wedi ei ohirio wrth i'r Dinesydd fynd i'r wasg. Hawl Dafydd Hywel a'i wraig i ddanfon eu merch, Catrin, i Ysgol Coed y Gof sydd wrth wraidd y gynnen. Mae brawd Catrin eisoes yn yr ysgol ond mynn yr Awdurdod Addysg fod yn rhaid iddi hi fynd i Ysgol Bro Eurwg.


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*


## DAWNS FAWREDDOG YR URDD

MEHEFIN 22, 1984.

Nodwch y dyddiad. Pam?

Dawns Fawreddog Eisteddfod yr Urdd 1985 yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Trefnwch fwrdd i chi a'ch ffrindiau. 10-12 ar bob bwrdd. Tocynnau- £15 yr un.
Ffoniwch; 6[illegible] (John Salter)
594378 (Merfyn Jones)
yn fuan i sicrhau bwrdd - mae nifer eisoes wedi'u **llenwi.** Brysiwch - bydd yn noson i'w chofio. Pur anaml y trefnir noswaith o'r fath i Gymry Caerdydd oherwydd costau uchel. Go brin y trefnir un arall mewn cysylltiad ag Eisteddfod yr Urdd. Ein gobaith yw codi swm sylweddol i goffrau'r Eisteddfod mewn noson gymdeithasol safonol. Dewch felly i gefnogi ac i fwynhau.

- - - - - - - - - -



# GOLYGYDDOL

"Dyfal donc, fe dyrr y garreg," ebe'r hen air ac mae'n wir dweud taw dyfalbarhad roddodd fodd i lawer o'r canllawiau yr ydym heddiw yn eu hystyried yn anhepgor i gynnal a chadw Cymreictod a'r iaith Gymraeg.

Dathlu'r gweithgarwch cynnal a chadw hwnnw yn y ddinas wnaeth ennill cystadleuaeth Twrlwm Bro yn Eisteddfod Genedlaethol inni y llynedd.

O'r diwedd, mae'r plac ~~xxx~~ enillodd Caerdydd i'w osod yn y ganolfan celfyddydau sy'n dwyn enw ein nawddsant - Neuadd Dewi Sant - lle anrhydeddus iawn iddo. Brwdfrydedd a dyfalbarhad Oen a Siân Emlyn Edwards ddaeth â'r maen i'r wal yn yr achos hwn. Chwi gofiwch i'r Cyngor wrthod ein cais i ddechrau. Nid oes ond gobeithio nawr y caiff ei roi mewn lle amlwg ac anrhydeddus. Gobeithio na fydd yn gamp dod o hyd iddo, fel sy'n wir gydag arwyddion dwyieithog newydd y neuadd.

***

Dyfalbarhad ddaeth â S4C i fodolaeth hefyd. Cwynodd rhai mai llawdrwm braidd oedd sylwadau y rhai a atebodd yr holiadur yn yr hydref. Ond gwêl y <u>Dinesydd</u> mai peth iach yw i wylwyr ymateb yn bositif a beirniadol i'r holl oriau o Gymraeg sydd gennym bellach ar y teledu. Gwasanaeth ar ei brifiant yw, wrth reswm. Mae digon o arwyddion eisoes fod gwersi wedi eu dysgu o'r ~~fixyf~~ flwyddyn gyntaf. Pan fydd rhaglen wirioneddol dda ar S4C (ac mae digon ohonynt) mae hi'n a syfrdanol o dda. Melys moes mwy.

Cydnabyddwyd hynny gan y wobr ddiweddar a enillodd y sianel gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol. Gwobr am deledu rhanbarthol oedd hi yn ogleisiol iawn. Da deall i'r sianel adael i'r Gymdeithas anrhydeddus wybod nad gwasanaeth rhanbarthol mohono ond un cenedlaethol. Dyna wraidd ei fod. Dyna rym ei arbenigrwydd.

***

Ofnai llawer y byddai digalondid yn llyffetheirio'r Mudiad Heddwch ar ôl i'r taflegrau gyrraedd Comin Greenham ddiwedd y llynedd. Ond nid digalondid yw'r perygl mwyaf sy'n wynebu CND ar ~~x~~ hyno bryd ond ffasiwn. Pan fo mudiad o'r fath yn dod yn ffasiynol mae mewn perygl dybryd o ddirywio'n ddim ond llais cyfarwydd heb fawr o rym gwirioneddol.

Pan sefydlwyd cangen o CND i Gymry Cymraeg Caerdydd daeth ugeiniau ynghyd. Tenau iawn yw'r gefnogaeth weithredol erbyn hyn, yn ôl y deall. Gobeithio yn wir y gwêl y cefnogwyr yn glir i roi grym ymarferol i'w daliadau ac y y bydd llewyrch ar y cynlluniau newydd a grybwyllir gan Meinir Vittle yn y rhifyn hwn. Nid yw gwisgo bathodyn yn ddigon. Dyfal donc...

# Y CALENDR

CHWEFROR:

6ed <u>Grwp Cymraeg CND Caerdydd</u> yn cwrdd yn Nhy'r Crynwyr am 7.30 p.m.

6ed <u>Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys</u> .Noson gyda Chymdeithas Gymraeg Penarth

6ed <u>Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach</u>.Hanes y Blaid Genedlaethol 1926-45 gan Hywel Davies am 8p.m.

10fed <u>Cymry'r Wenallt</u> Dewch am Dro gyda Alun Williams Pantmawr am 8 p.m.

11eg <u>Eisteddfod yr Urdd 1985</u> Disco dwyieithog yn Ysgol Gyfun Stanwell,Penarth.

16eg <u>Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd</u> Technoleg Fideo gyda Gwynfor Price,3M, Gorseinon.Yn Adeilad Redwood,UWIST,Parc Cathays am 7.15 p.m.

17eg <u>Eisteddfod yr Urdd 1985</u> Cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant gyda Helen Field, Dennis O'Neill,Delme Bryn Jones a Chor Orffiws Treforus.

25ain <u>CND</u> Modurgad i Aberhonddu Am fanylion ffoniwch 752522.

27ain <u>Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach</u> Joseph Parry y cyfansoddwr gyda Dulais Rhys am 8 p.m.

MAWRTH:

1af <u>Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys</u> Cinio Gwyl Ddewi yng Nglwb B.P.,y Sili.

2il <u>Y Cymrodorion</u> Cinio Gwyl Ddewi yn Neuadd Uwist.

MAWRTH

1af <u>Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys</u> Cinio Gwyl Ddewi yng Nglwb B.P. y Sili

2il <u>Y Cymrodorion</u> Cinio Gwyl Ddewi yn Neuadd UWIST. Tocynnau yn £7 gan aelodau'r pwyllgor.Gwr Gwadd-T Arfon Williams.

8fed <u>Clwb Cinio Merched Caerdydd</u> Yn Thatchers,Llanishen.Gwraig wadd-Eunice Williams.

9fed <u>Eisteddfod Yr Urdd 1985</u> Gwledd Canol Oesoedd yng Nglwb Ifor Bach.

9fed <u>Y Cymrodorion</u> Cyngerdd gan blant Ysgol Glantaf yn yr ysgol.Arweinydd-Alun Guy,cadeirydd-Gwyn Lewis Davies.

15fed <u>Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd</u> Parasitoleg gyda'r Dr Harford Williams o'r Brifysgol Agored. Adeilad Redwood, UWIST,Parc Cathays,7.15.

19eg <u>Cymdeithas Hanes Clwb Ifor Bach</u> Freud - ei fywyd a'i waith gyda'r Dr H.Pritchard Jones am 8 o'r gloch.

YCHWANEGIADAU AT Y CALENDR.

Chwefror

6ed <u>Cylch Cinio Cymraeg</u> <u>Caerdydd</u> Yng Ngwesty'r Parc am 7.30.Siaradwr gwadd:Idwal Symonds, Cadeirydd H.T.V. Cymru.

Mawrth

5ed <u>Cylch Cinio Cymraeg</u> <u>Caerdydd</u> Yng Ngwesty'r Parc am 1.00p.m.. Siaradreg wadd:Elaine Morgan Y.H.,Aberdar.

Ebrill

2il <u>Cylch Cinio Cymraeg</u> <u>Caerdydd</u> Yng Ngwesty'r Parc am 7.30.Gwr gwadd: Yr Arglwydd Prys Davies.

6ed <u>Cymrodorion</u> yn ymweld a Chymrodorion Aberdar.

---

## CLWB CINIO'R MERCHED

Daeth amryw o "hen stagers ac ambell wyneb newydd ynghyd i westy "Thatchers" yn Llanishen nos Iau, Ionawr y 12fed,i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd o Glwb Cinio Merched Caerdydd. Cafwyd gwledd. Nid yn unig cawsom bryd o fwyd blasus a chwmniaeth ddifyr,ambell sgwrs a hen ffrind , ond yn bennaf oll cawsom Hywel Gwynfryn yn westai.

Bum yn dyfalu cyn y cyfarfod beth fyddai ei destun - munudau byth-gofiadwy/gwell-eu-anghofio,neu,efallai, westeion anystywallt ar ambell i raglen? Dim o'r fath beth. Yn hytrach fe aeth a ni nol i'r gorffenol. Darlith hanesyddol, sych,felly. Gan Hywel Gwynfryn?? "Never in Europe". Do fe aeth a ni nol i'r gorffenol,i'r flwyddyn 1884,trwy lygad "Y Frythones" am y flwyddyn honno,gan gyfeirio at Cranogwen fel Jean Rook oes Fictoria,a chymharu'r Frythones a Cosmopolitan heddiw. Ys dywed y Sais, "It's the way he tells them!"

Cafwyd dyfyniadau lu o'r cylchgrawn,gan gynnwys barddoniaeth(erchyll), cyfarwyddion(chwerthinllyd ar brydiau) a diddanion, neu jocs na allaf feddwl am ansoddair i'w disgrifio Roedd y dyfyniadau yn ddiddorol iawn,ond roedd ambell i ebychiad neu hyd yn oed edrychiad,gyda sylw bachog neu amserol gan H.G yn gosod ei stamp arbennig ef ar y cyfan. Gorffennodd ei sgwrs trwy ddarllen cerdd o waith Dr Gwyn Thomas,"Colofn Gofidiau", sef colofn megis y rhai a geir mewn cylchgronau merched,yn ol y bardd, diweddglo addas iawn i noson o fwyniant i bawb oedd yno.

Ni fyddwn byth yn gwmni mawr yng Nglwb Cinio Merched Caerdydd a chefais ar ddeall fod rhai pobl yn meddwl mai cwmni etholedig h.y. hunan-etholedig ydi'r aelodau.Os ydych chi'n meddwl hynny,rydych ymhell ohoni. Dydyn ni ddim yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol nac unrhyw garfan grefyddol ac nid yw oedran yn faen tramgwydd ychwaith.
Cwmni o ferched ydym sy'n siarad Cymraeg,yn mwynhau noson allan heb y dynion, pryd o fwyd blasus,ond heb fod yn rhy ddrud i fwynhau,cwmniaeth cyfeillion a hefyd sgwrs gan wr neu wraig wadd.
Os nad ydych yn fy nghredu beth am ddod atom i Thatchers ar yr 8fed o Fawrth i brofi eich hunain?Gwestai'r noson honno fydd Miss Evelyn Williams,gynt o'r BBC,yn son am "Oriau Heulog". Gallwch ddyfalu fel fi hyd fis Mawrth beth fydd y cynnwys,ond gallaf eich sicrhau y bydd yn werth ei chlywed. Fe gewch y manylion yn y Calendr neu ffoniwch Kit Boobier - 487276, Nia Hall-Williams -752755, neu Marion Jones - 594378. Beth am ymuno a ni?

************

***********

## GENEDIGAETH

I Dulais a Leigh-Verrill-Rhys,mab - Gwion Verrill Dulais - ar Ionawr 12fed 1984.Diolch i bawb yn Ysbyty Dewi Sant. Americymro balch a gwerthfawrogwr newydd sbon o Joseph Parry!!

*********

CALENDR ETO

MAWRTH

1af <u>Cyfeillion y Triban</u> Cinio Gwyl Ddewi yng Ngwesty'r Inn on the Avenue.7.30 am 8.00. Tocynnau yn £13.50.Gwr gwadd:Dr Dafydd Huws.

## C.N.D. CAERDYDD

Mae 1984 wedi cyrraedd a digon o with gennym i'w barhau.Gyda dwy fil o aelodau CND yng Nghaerdydd a 40 o aelodau yn y grwp Cymraeg mae gennym ddigon o waith ar y gweill.

Yn dilyn cyfarfod o'r grwp Cymraeg nos Lun,16eg o Ionawr penderfynwyd ail-lunio ein tren a chynorthwyo i sefydlu grwpiau heddwch o fewn unedau Cymraeg parod yn y ddinas. Byddwn yn anfon llythyr at bob capel Cymraeg yn y dref ac yn eglurc ein syniadau ac yn gofyn am eu cefnogaeth.Yn ogystal a hyn bydd cyfarfod heddwch yng Nglwb Ifor Bach cyn bo hir i gael grwp heddwch i gyfarfod yno.Sawl cell bychan yn gweithredu a bob hyn a hyn byddwn yn uno i gael cyfarfod mawr gyda siaradwyr ac yn y blaen. Cynllun bras a llawer o waith caled ydyw ar hyn o bryd ond gyda'ch CEFNOGAETH gallwn weithredu'n effeithiol iawn. Os ydych am gynorthwyo cysyll-twch ag un o'r swyddogion isod (neu os ydych am fwy o wybodaeth)

CADEIRYDD: Wynne Samuel,
11,Gerddi Jellicoe.
Y Rhath.
ffon: 757644.

IS-GADEIRYDD:
Parch.Cynwil Williams,
12,Dorchester Avenue,
Penylan.
ffon: 487457

YSGRIFENNYDD: Meinir Vittle,
55,Heol Fidlas,
Llanishen.
ffon: 752522.

IS-YSGRIFENNYDD: Dafydd Owen,
20,Canton Court,
Treganna
ffon: 374976

TRYSORYDD: Iwan Jones,
38 Thornhill Rd,
Llanishen.
ffon: 752727.

Ar ddydd Sadwrn,25ain o Chwefror cynhelir rali yn Aberhonddu yn dilyn modurgad o bob cwr o Gymru.Bydd modurgad yn mynd o Gaerdydd ac os gellwch ddod cysylltwch ag un o'r swyddogion uchod. Dathliad o Gymru ddi-niwcliar yw'r rali ac mae'n cloi wythnos Cymru ddi-niwcliar(18-25 Chwefror). Os na ellwch ddod mae gennym gardiau cyfrannu.(15c y pen)

Bydd digon o bosteri a thaflenni ar gael o gwmpas y lle i hysbysebu cyfarfodydd pellach, ymysg y rhain bydd diwrnod Cymraeg yn y Siop Heddwch,bore coffi a noson yng Nghlwb Ifor Bach. Cynhelir cyfarfod grwp CND Cymareg Caerdydd ar nos Lun,6ed o Chwefror yn Nhy'r Crynwyr am 7.30p.m.

ADEILADWN DDYFODOL I'N PLANT!

********

## YR AGORIAD

## MAGU PLENTYN YN UNIAITH

Yn ystod mis Ionawr dechreuais fagu fy mhlentyn cyntaf. Rwy'n bwriadu magu'r bachgen 'ma yn y Gymraeg.Does dim byd anaferol yn hynny efallai ond mae'n wahanol i fi,oherwydd nid y Gymraeg yw fy mamiaith.

Rwy'n dal i ddysgu ac rwy'n pryderu ynghylch sawl rheswm sy'n ymwneud a'r iaith.Yr un amlwg ydy'r pryder am fy medr i ddysgu fy ail iaith i'r plentyn fel ei iaith gyntaf.Y rheswm sy sy'n llai amlwg ydy'r sefyllfa deimladol sydd rhwng rhiant a phlentyn,a dwi ddim yn credu bod hyn yn tynnu sylw y Cymry Cymraeg yn aml.

Pan oeddwn i'n dysgu'r iaith yn y Politechneg,dim ond menywod -i gyd yn famau ond fi- oedd yn y dosbarth. Roedd pob un yn pryderu ynghylch eu medr i drosglwyddo'r iaith ac roedd sawl un yn sylwi ar broblemau teimladol.Roedd bron pob un yn methu dal ati.

Tua blwyddyn yn ol bu achos yng Ngwynedd am weithiwr cym-deithasol oedd yn ceisio am swydd oedd wedi ei hysbysebu fel un dwyieithog.Fe aeth y gweithiwr at y Bwrdd Cysyll-tiadau Hiliol i gwyno.Enillodd sir Gwynedd yr achos am fod hawl gan y cyhoedd,mewn sef-yllfaoedd anodd i siarad eu hiaith gyntaf.Mewn gwirionedd yn ol y seicolegwyr mae angen teimladol pwysig am yr iaith gyntaf mewn sefyllfaoedd lle bydd gweithwyr cymdeithasol yn gwneud eu gwaith fwyaf.

Gan fy mod yn teimlo'n gryf dros fy ail iaith pend-erfynais beidio a dysgu Saesneg o gwbl i fy mhlant am fod mamiaith yn fwy pwysig na bod yn ddwyieithog gyda phwyslais cyfartal ar y ddwy - yn arbennig yn sefyllfa eithyddol Cymru lle mae mamiaith y rhai yn dod yn ail ymhob sefyllfa.Er mwyn o leiaf ceisio sicrhau bod fy mhlentyn cyn gryfed yn y Gymraeg ag yn Saesneg rwy'n meddwl fod rhaid cadw at y polisi uniaith hwnnw.

Ar y llaw arall,mae'n amhosibl gwybod os ydw i'n creu sefyllfa annaturiol rhyngom ni.Anodd fydd ymdopi a'r plentyn os oes damwain neu berygl os ydy'r ddau ohonom yn troi i'n hiaith gyntaf. Fe gafodd fy mab ei ddechrau yn iawn beth bynnag. Diolch i staff Cymraeg ysbyty Dewi Sant ganwyd Gwion fel hogyn bach ei wlad. Cawn weld yn y misoedd i ddod...ac fe gewch glywed!!

**GEIRFA**

anarferol:unusual
ynghylch;concerning
dal ati:keep at it

# Y SILFF LYFRAU

Tomi Evans:Y TWRCH TRWYTH A CHERDDI ERAILL.Gwasg Gomer £1.95
Dafydd Owen:CERDDI LON GOCH Barddas £2.50
Emrys Roberts(gol)BYD Y BEIRDD Barddas £2.00

Tair cyfrol a dwy ohonynt gan feirdd cenedlaethol.

Trist meddwl mai "Y Twrch Trwyth a Cherddi Eraill" yw'r unig gasgliad a feddwn o waith y prifardd toreithiog Tomi Evans. Mae'r cerddi hyn(rhai caeth gan mwyaf)yn perthyn fel yr un a'i canodd,i draddodiad y werin ddiwylliedig.Mae ei allu'i gwmpasu ystyr a chreu darlun yn britho'r gyfrol hon.Yn gynsail i'w ganu mae ymlyniad wrth y gwerthoedd gwâr sy'n rhoi urddas iunigolyn ac yn galluogi'r unigolion hynny i acio'n gymdeithas.

"Mae mwy ar werth pan werthir
Ein daear na darn o dir."

Diau y gall Dafydd Owen yntau gydymdeimlo â'r epigram hwnnw,ond yn ei gyfrol ef, "Cerddi Lon Goch",nid y cwlwm rhwng dyn a'i fro yw sbardun y canu.Y cerddi gorau gennyf i oedd y rhai sy'n deillio o ddig y bardd tuag at amgylchiadau sy'n amddifadu dyn o fywyd cyflawn.

"Pa beth ddaw ohonof,fy
Arglwydd Dduw
heb chwennych marw,ac yn ofni
byw?"

Cwestiwn peryglus gan fardd o weinidog!

Gresyn fod ambell gamargraffiad yma a pham fod rhaicerddi yn rhibidires ar ôl ei gilydd tra bo'r rhan fwyaf yn cael tudalen lawn iddynt eu hunain.

Casgliad amrywiol o gerddi a ymddangosodd yn "Y Cymro" yw "Byd y Beirdd".Cyfrol dderbyniol arall y bydd croeso brwd iddi gan selogion yr awen. Mae hynny'n wir am bob un o'r tair cyfrol dan sylw.

Aled Islwyn.

* * *

Robert Rhys(gol.)AROLWG 1982 Cwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf. £2.50.
Emily Huws(addas.) NAWR GELLWCH CHI DDARLLEN STORIAU O'R BEIBL Gwasg Gomer.£1.10 yr un.

Mae i'r gyfrol "Arolwg 1982" ddwy ran.Yn yr ail ran ceir adroddiadau a luniwyd gan swyddogion nifer o gymdeithasau mudiadau a sefydliadau.Yn y rhan gyntaf ceir sylwadau llai mewnblyg ar agweddau o fywyd Cymru.

Gan Gareth Lyn Jones cawn sylwadau diddorol ar fyd y ddrama,yn arbennig wrth iddo ddisgrifio misoedd olaf Wilbert Lloyd Roberts a misoedd cyntaf Emily Davies wrth lyw Cwmni Theatr Cymru. Lluniodd Elgan Ffylip arolwg sylwgar ar y "canu cyfoes".Gogleisiol,er enghraifft oedd darllen mai'r Eisteddfod Genedlaethol yw prif wyl roc Cymru! Mae cyfraniad D.Densil Morgan ar grefydd a diwinyddiaeth yn deg,yn sylweddol ac yn feddylgar,ond mae'r gwallau cysodi a welir yn yr erthygl hon yn ddiflas tu hwnt.

Wrth drafod gwleidyddiaeth a'r undebau llafur mae D.Ben Rees yn traethu'n huawdl iawn ar ryfel y Falklands ac mae Huw Pryce yr un mor grafog wrth fesur a phwyso'r ymdrechion a gafwyd i goffhau 1282 yn ei erthygl ar hanesyddiaeth Cymru. Ar nodyn ysgafach mae cyfraniad Robert Rhys ar hynt y meysydd chwarae yn gynhwysfawr ac yn ddifyr.Rhaid cyfeirio hefyd at y clawr syml ond trawiadol a'r lluniau camera a ddarparwyd trwy garedigrwydd "Y Cymro".

Mae'r gyfres"Nawr gellwch chi ddarllen storiau o'r Beibl yn mynd yn ei blaen a dyma bum cyfrol newydd o'r addasiadau lliwgar hyn.

Ar y cyfan mae'r iaith yn raenus ac yn naturiol.

Mae digonedd o hiwmor yn "Arch Noa".Ceir fersiwn gynhwysfawr o stori "Dafydd a Jonathan" a fersiwn gymen a manwl o hanes "Moses".Efallai y bydd manylion "Samuel" yn llai cyfarwydd i'r plant a bydd y gyfrol hon,felly,yn arbennig o ddefnyddiol.

Yn olaf daw "Storiau'r Iesu" sef rhagymadrodd ac yna dameg ion Y Mab Afradlon a'r Samariad Trugarog.Efallai y gwelwn y gyfres yn datblygu ymhellach yn hanes y Testament Newydd.

Philip Lyn Jones.

---

# PYTIAU

Rhamant yn blodeuo yn Aelwyd Caerdydd ac yn Nghlwys Ebenezer! Dymuniadau gorau i Delyth Jones a Linon Williams ar eu dyweddiad.Mae Delyth yn ferch i Mr a Mrs John Ewart Jones ac Linon yn fab i Mr a Mrs Ambrose Williams.Llongyfarchiadau i'r ddau.

* * * * * * *

Llongyfarchiadau i Siriol Evans o Wenfo (gynt o'r Barri) ar ei dyweddiad a Robert Roberts o Gaerdydd. Mae Siriol yn ymchwilydd i raglen Helo Bobol ar Radio Cymru a Robert yn aelod o Heddlu De Cymru. Pob dymuniad dau i'r ddau ar eu priodas yn ddiweddarach eleni.

* * * *

Llongyfarchiadau i Rowena Thomas a Rowland Jones o S4C ar eu dyweddiad.

COLOFN SHAN

Profiad od iawn ydy cael ei eich atgyfodi - dyna sydd wedi digwydd i mi yn yr wythnosau dwytha ma. Y mae'n brofiad cymysglyd iawn-yn llawn cyffro a phangfeydd o ddiffyg hyder. Son yr ydw i am fy mhrofiad yn paratoi a a chydgyflwyno cyfres "Gwraidd y Gainc".

Dyna i chi newid sydd wedi bod ym mynd darlledu oddi ar y pumdegau pan roeddwn yn darlledu'n gyson,yn ifanc hyderus,ac o edrych nol yn ddigon haerllug hefyd. Popeth yn fyw bryd hynny a stiwdio "Pnawn Da Plant yn TWW yn llai na chegin gyffredin. Dim ond lle i ddau gamera a rhyw ddau berfformiwr ac unrhyw gyfrannwr arall yn gorfod newid lle efo un o'r ddau drwy gropian a chrafangio o dan y camerau. Yr unig gyfarwyddyd gwisg oedd osgoi gwyn,streips a check!

Syndod i mi felly oedd cael fy nhywys gan ddwy ferch ifanc o HTV o gwmpas y dref i ddewis dillad ar gyfer y gyfres-a mentro efo nhw i siopau y tybiais i cynt mai dim ond pobl ifanc ddylai fentro dros eu rhiniog.Ymgod ymu a swn pop byddarol a newid a thrio dillad yng ngwydd llond y lle,heb na dr drws na chyrtan i'm cysgodi Dipyn o straen ydy ceisio cadw fy ngwallt yn ddestlus a'i drin yn llawer amlach na'r arfer.

Sut brofiad ydy'r cyfan? Diddorol a chynhyrfus. Teimlaf yn amal pan ddaw golau coch y camera tuag ataf fel gweiddi,"plis gai i fynd adre at fy Hoover a dystar?"Diolch am hir amynedd a help y criw cynhyrchu.

Syndod i mi yw fel mae techneg darlledu wedi gwyrdroi a minnau ond a phrofiad o ddarlledu byw,a hynny yn oes yr arth a'r blaidd bron erbyn hyn. Fe darodd y frawddeg nesa ma yn od iawn ar fy nghlustiau:"All ad libbing must be scripted"! Tynnu coes oedd o 'dwch?.Yr ymateb doniolaf hyd yma,ffrind yn deud,"mi roeddat ti'n edrych yn ddel iawn,reit glam a deud y gwir,dim byd tebyg i ti rywsut." Tydy hi'n bwysig, 'dwch i rywun fedru cymryd ei hun yn ysgafn?!

******* **

# SALWCH

Trist gorfod cofnodi salwch cyn-ysgrifennydd Eglwys Annibynnol Ebeneser,Heol Siarl. Cafodd Mr Leslie Jones ei daro'n wael yn fuan ar ol rhoi'r gorau i'w swydd fel ysgrifennydd,swydd y bu'n ei chyflawni yn drylwyr ac effeithiol am bum mlynedd ar hugain. Dymuniadau gorau iddo am wellhad buan yn Ysbyty Rookwood.A dymuniadau gorau hefyd i'w olynydd - T.Arfon Williams- bardd y Dinesydd.

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

COLEG PRIFYSGOL CYMRU
ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG
I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1984. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG

neu

Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:

ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 10 Ebrill 1984.

# CEFFYL PREN!

ROC AR Y TAF

Goblyn o fenter! Dyna oedd f'ymateb cynta i i'r newydd fod Ceffyl Pren yn bwriadu cynnal cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Ond mae na dro cynta i bob dim wrth gwrs a fedra rhywun ddim peidio ag edmygu hogiau Ceffyl Pren am fentro. Ac onibai am eu hegni a'u dyfalbarhad yn yr wythnosau cyn y gyngerdd siawns na fyddai cynifer a chwech neu saith gant yn y gynulleidfa y noson honno. Yn wir cefais fi siomi ar yr ochr orau gan y noson gyfan. Roedd na fwy wedi troi i mewn i'r Neuadd nag yr oeddwn wedi rhagdybio ac roedd ymateb y gynulleidfa yn frwdfrydig a chalonnogol.

Wrth gwrs nid Ceffyl Pren oedd yr unig grwp i berfformio. "Cwestiwn Da" oedd y cyntaf i gyrraedd y llwyfan- grwp o Lanelli y dyliwn glywed cryn dipyn yn fwy ohono yn ystod y misoedd nesaf, a barnu o'u perfformiad nos Sadwrn.

Erbyn i "Derec Brown a'r Racaracwyr" gyrraedd y llwyfan roedd bron pawb wedi gadael y bar a eistedd yn y neuadd fawreddog a go brin fod neb yn difaru gwneud hynny oherwydd fe gafodd y Bonwr Brown a'i gyfeillion gryn hwyl ar eu set gyda'r grwp a'r gynulleidfa'n ymateb yn dda i'w gilydd.

Saib fer yna goleuadau llachar yn fflachio, y drymiau'n curo, yna Ceffyl Pren yn meddianu'r llwyfan gan gyflawni un o'u hamryw uchelgeision. Ac os nad oedd roc trwm at ddant pob un ohonom yn y gynulleidfa roedd na le i fwynhau y grwp yn "perfformio". Roedd y sioe oleuadau er enghraifft yn gampus ynddi hun a tybed a oes unrhyw un wedi gweld pobl yn taflu frisbis ar yr un llwyfan a grwp roc o'r blaen. Mae'n amlwg fod Ceffyl Pren yn eu helfen ar lwyfan mor fawr a'u bod wedi dotio at ymateb y rhai oedd yn gwneud eu gorau glas i ymuno â'r grwp ar y llwyfan a'r pendoncwyr hwythau yn cael modd i fyw gan y grwp.

Sian Fari Huws.




MERCHED Y WAWR, CAERDYDD

Cyfarfu Merched y Wawr nos Lun, Ionawr y 9fed, yng nghynhesrwydd festri Minny Street unwaith eto.

Mrs Myfanwy Jarman oedd â'i llaw ar y llyw ac anogodd holl Ferched y Wawr Caerdydd a'u cyfeillion i gefnogi'r gangen pan gynhelir eu bore coffi arbennig yn y Mansion House, Heol Richmond. Y bore mawr yw'r ail ar hugain o Chwefror, rhwng deg a hanner dydd. Mae'r tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor. Dyma'ch cyfle i groesi trothwy'r tŷ hanesyddol yma. Dewch draw am baned gan gofio am ein stondin moes a phryn.

Ein gwraig wadd y noson honno oedd Mrs Joan Rees fu'n arddangos peth o grochenwaith Llanelli ac yn olrhain hanes crochendy fu'n bwrw a thanio rhwng 1839 a 1921 er gwaethaf cystadleuaeth Josiah Wedgwood.

Llestri gwerin luniwyd ac a harddwyd yma: y powlenni cawl, y jygiau a'r platiau sy'n rhan hanfodol o bob cartref. Â gofal y paentiwyd y ceiliogod a'r lluniau o Fari Jones gan Miss Sarah Roberts a gwerthfawr yw ôl ei llaw heddiw. Yn sgil y crochendy daeth rhai gwelliannau cymdeithasol fel tai amgen i'r gweithwyr ac agorwyd Ysgol Sul a droes yn achos Seisnig. Bellach nid oes hyd yn oed llwch lle bu gan mai dyma safle gwaith nwy Abertawe.

Diolchwyd iddi gan ein llywydd a mawr oedd gofal y merched wrth fodio ac archwilio cynnyrch lliwgar y crochendy.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Yn mis Medi cawsom bleser wrth ddarllen yn y golofn hon un o'r cerddi a enillodd i Emyr Lewis,Llysfaen, Dlws Barddas yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni. Priodol iawn y mis hwn yw cyhoeddi cerdd arall o'r un casgliad arobryn,gan ddiolch am ganiatad i'w chodi i'r golofn.

CAERDYDD 5.15 o'r gloch

Awel Ionawr fileinig,
eira man yn chwarae mig
rhwng llafnau y golau gwan,
rhwydwaith y lampau trydan.

Dynion mewn ceir diwyneb
fel malwod,yn nabod neb,
dynion neis,gwar,dinesig,
ar frys yn llif yr awr frig,
linell ac linell ymlaen,
dewrion y strydoedd diraen,
heibio'r nels yn ddiberswad,
gyrru yn ol at gariad.

Sych heno peswch henaint
gafael hern gefelau haint
aeafol mewn ysgyfaint.
Pinsiyrnau yn nyrnau'r nos
egar eu gwasgu agos.
Ceri mae hwn wrth aros
rhwygo brwnt y barrug brau
yn gyson ar ei goesau
a llwydrew'n startsio'r llodrau
a brathu'r croen drwy'r brethyn
sy' frau a thenau a thynn.
Yntau ar goll,fel plentyn.

Dyma gaethglud y mudion
heb lais yn eu Babilon.
Gobaith yw'r car sy'n gwibio
cwrs ar hyd traffordd y co'
i wal frics.Mae awel fraith
Uffern y strydoedd diffaith
yn adnabod Anobaith.

Emyr Lewis

Blwyddyn newydd dda i chi oll.

TAITH COR MEIBION DE CYMRU I'R AMERIG

Ar ol llawer iawn o ymarfer a a pharatoi daeth yn amser i Gor Meibion De Cymru ymadael a'r Hen Wlad,croesi Mor Iwerydd a theithio rhannau dwyreiniol yr Unol Daleithiau Roedd yn fraint cael bod yn aelod o'r cor mwyaf erioed i adael Prydain Fawr.Roedd tua pum cant ohonom.

Wrth inni lanio ym Montreal roedd hi'n bwrw eira yn drwm ond ymhen tua thri chwarter awr roeddem yn hedfan dros Ottowa i gyfeiriad Toronto a hyfryd oedd gweld goleuadau amryliw y dref honno. Ymhen dim roeddem ar y bysus a'n cludai i Niagra a chawsom weld y rhaeadrau yno yn eu gogoniant.

Mewn erthygl fer mae'n amhosibl manylu gormod ar yr holl brofiadau a gawsom yn ystod y daith ond dyma restr o'r canolfannau yr ymwelson a hwynt:Pittsburg,Baltimore, Washington,Philadelphia,ac Efrog Newydd.Ym Pittsburg roeddem yn canu gyda Cherddorfa Symffoni'r ddinas ac yn Baltimore Cerddorfa Symffoni'r dref honno oedd yn cyfeilio i ni. Hyfryd oedd cwrdd a hen gyfeillion o Gymru.Roeddent yn hiraethu'n fawr yn enwedig pan ganai'r cor emynau Cymraeg. Yn Washington buom yn canu ar risiau'r Capitol.Ymhob cyngerdd rhifai'r gynulleidfa dros ddwy fil a phrofiad gwefreiddiol oedd canu ger bron cynulleidfa o bum mil yng Nghadeirlan Sant Ioan y Difinydd.

Mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i Alun John,ein harweinydd ac i holl aelodau'r pwyllgor am y gwaith caled

John Ewart Jones.

## TORTH O FARA

SIOPA YN SAINBURY'S

Rwy'n siwr bod rhan fwyaf ohonoch wedi cael cyfle i fod yn siop Sainsbury erbyn hyn, neu o leiaf wedi cael un o'u pamffledi lliwgar trwy'r drws yn hysbysebu eu bwydydd.

Rwyf wedi bod yno fy hunan ac wedi gwneud cais i gael cyfweliad gyda'r rheolwr; hyd yn hyn nid wyf wedi cael ymateb pendant i'm cais. Mae'n debyg bod rhai ohonoch hefyd wedi darllen erthygl gyffredinol am gwmni Sainbury yn y Sunday Times yn ddiweddar.

Beth yw eich argraff chwi o'r siop fawr yma tybed? Hoffwn gael eich ymateb i'm sylwadau personol i.

Cyn i mi ddechrau, dylwn ddweud mai yn Tesco rwyf yn gwneud fy siopa fel arfer ac rwyf wedi cael cryn dipyn i wneud gyda'r cwmni hwn. Roeddwn yn aelod o'u panel prynwyr i'r siop yn yr Hayes ac rwy'n delio'n aml iawn gyda'u gwasanaeth i ysgolion. Felly pan yn siopa yn Sainsbury's roeddwn yn cymharu eu safonau gyda Tesco, yn enwedig gyda'u siop newydd yn Llaneurwg.

Wrth fynd o amgylch Sainsbury's ar fore Sadwrn roeddwn yn synnu mor ddistaw oedd y siop, o leiaf roedd hyn yn rhoi cyfle i mi loetran mwy. Ni fyddwn yn hapus bod yno gyda thoreth o bobl a'u basgedi gan fod yr eiliau yn eitha cul cydrhwng y silffoedd.

Balch oedd gennyf weld bod dewis da o fwydydd yno, nid yn unig wedi eu pacio gan y cwmni ond hefyd bwydydd gan gwmniau eraill. Yn ddiweddar rwyf wedi cael trafferth cael rhai mathau o fwydydd yn Tesco heblaw'r rhai maent yn pacio eu hunain.

Edrychwch allan yn arbennig am fwydydd anarferol fel pasta ffres o wahanol fathau, cigoedd fel cwningen, ceiliog y coed a helgig eraill. Mae hyd yn oed dalen ddidâl i'w chael yn rhoi rysaitiau sy'n cynnwys helgig! Mae'r cwmni yma wedi bod yn ystyrgar at bobl sengl ers cryn amser ac mae'n dda gweld bwydydd mewn tuniau un cyfran. Os ydych am amrywiaeth i'ch ymborth neu eisiau bwydydd at bryd arbennig i wneud argraff dda ar eich ffrindiau, dyma'r siop i ddewis - o ran bwydydd cyfleus neu fwydydd allwch ddefnyddio eich dawn greadigol arnynt yn y gegin.

Mae dewis cyfartal i Tesco yno yn yr adran gwin ac i'r rhai sydd ddim yn gwybod beth i ddewis, mae arwydd uwchlan y silffoedd yn rhoi syniadau ynglyn â'r mathau o win sy'n sych, melys ac yn y blaen. Mae popty da yno gyda llawer o wahanol fathau o fara ar gael; rwy'n hoff iawn o'u 'croissants'. I'r rhai sy'n hoffi casglu llyfrau coginio mae sawl llyfr rhesymol ei bris wedi ei ddatblygu gan y cwmni. Er, i mi, nid oes gwell lle na Marks & Spencer am lyfrau coginio rhad. Fy hoff lyfrau coginio gan Sainsbury yw 'Pasta, Italian Style' (75c.) a 'Wholefood Cooking' (99c.)

Siomedig oeddwn yn y dewis o lysiau a ffrwythau ar werth yn y siop. Nid yw Tesco erioed wedi bod yn dda iawn yn yr adran yma, ac yr oeddwn yn edrych ymlaen at gael gwell amrywiaeth yn Sainsbury. Ar y cyfan ni welais lawer o wahaniaeth cydrhwng y ddwy siop. Nid wyf yn hoffi cael llysiau a ffrwythau wedi eu pacio o flaen llaw. Mae rhai ohonynt yn rhydd ond hoffwn weld mwy ohonynt fel hyn. Mae'r prisiau'n uchel; dyma un enghraifft - 3 taten wedi eu pacio ar gyfer eu pobi (meddai'r label) y pris - 48c! Ar y cyfan, lle gwael yw y ddinas yma am roi dewis o lysiau a ffrwythau anarferol efallai mai arnom ni mae'r bai am beidio bod yn ddigon anturus i'w prynu a'u defnyddio.

Ychydig o ddewis welais yno hefyd o bysgod ffres a bwydydd y môr.

Roeddwn yn synnu fod y siop newydd yma ddim yn defnyddio'r 'bar coding' ar y tils. (Maent yn eu defnyddio yn llwyddiannus yn Tesco Llaneurwg) ac nid oes bagiau plastig i'w cael am ddim i roi eich nwyddau. Caf fwy o gymorth hefyd yn Tesco gyda pacio'r nwyddau ar ôl talu ac mae'r staff yno ar y cyfan yn fwy siriol.

Mae Tesco wedi gwneud eu gwaith cartref i wella eu safonau ac i ddenu cwsmeriaid, e.e. maent wedi cydnabod yr iaith Gymraeg (er nad ydynt yn hoff iawn o dderbyn sieciau Cymraeg!); maent wedi sefydlu panel prynwyr mewn sawl siop i gael trafod problemau gyda'u rheolwyr ac mae ganddynt gegin yn eu siop yn y ddinas lle mae tair merch, wedi eu hyfforddi mewn Gwyddor Tŷ, yn gweithio (mae un ohonynt yn siarad Cymraeg). Yno ceir pob math o ddalennau ardderchog am ddim ar wahanol bynciau, cyngor gan y merched ar fwydydd a nwyddau eraill, a chyfle i flasu rhai o'u bwydydd. (Mae'r merched yma yn mynd allan i wneud arddangosfeydd mewn ysgolion ac i wahanol gymdeithasau).

Er fod y Sunday Times yn dweud bod cwmni Sainsbury yn fwy llwyddiannus o ran datblygiad economaidd na'u gwrthwynebwyr mwyaf fel Tesco ac Asda, nid ydynt wedi gwneud digon o argraff arnaf i mi newid fy arferion siopa.

Efallai rhywbryd yn y dyfodol caf farn rheolwr y siop!

# PYTIAU

AR OSOD

Ystafell mewn ty yn ardal Llandaf. £25 yr wythnos yn gynwysiedig. Ffoniwch 564853

* * * * * * *

Eleni eto bu nifer o bobl ifanc ardal Highfields o gwmpas y tai yn casglu calennig a chanu. Casglwyd £30 a'i rannu rhwng Ymchwil i Cystic Fibrosis a Chymdeithas Hyder. Diolch iddyn nhw.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

* * * * * * *

Dylid anfon unrhyw gyfraniad at rifyn mis Mawrth at: Y Golygydd, 139, Fairwood Rd, Llandaf, Caerdydd erbyn yr 20fed o Chwefror.

Anodd yw disgrifio'r profiad o symud yn bump-ar-hugain oed i fyw o Bandy Tudur, pentref bach gwledig yng Nghlwyd, i'r Brifddinas. Yr oeddwn wedi bod yn gweithio yng Nghaer Rhun, coleg preifat i gyfrifwyr, ers wyth mlynedd ac 'roedd yn amser symud ymlaen. Ni feddyliais erioed am ddod i Gaerdydd i fyw, ond gwelais hysbyseb am swydd ysgrifenyddes gyda S4C a penderfynais fentro. A chysidro mai dim ond er mwyn y swydd hon yr oeddwn yn symud - yr oedd yn dipyn o gam. Fy unig ofn oedd y byddwn yn methu gwneud y gwaith ac yn gorfod mynd adref â'm cynffon rhwng fy nghoesau!

Fel ambell i un arall yn S4C, 'roeddwn yn dod yma am lai o gyflog nag yr oeddwn yn ei dderbyn yn fy swydd flaenorol, ac o ystyried y byddwn yn gorfod talu tipyn mwy am fy lle nag y talwn i Mam, 'roeddwn yn ymwybodol iawn o'r ffaith na fyddai fy sefyllfa ariannol mor lewyrchus ag y bu, ond hyderais y byddai gweithio i S4C, y fenter newydd yma ym myd teledu Cymraeg, yn digolledu'r arian. Ac 'rwy'n falch o ddweud mai felly y bu!

Pryderais o feddwl am y gwahaniaeth a fyddai rhwng gweithio mewn swyddfa fach mewn coleg preifat a gweithio gyda 50 o bobol mewn Awdurdod darlledu. 'Roedd rhaid cyfarwyddo gyda rheolau newydd; 'roedd termau technegol newydd i'w dysgu; 'roedd rhediad y swyddfa yn wahanol, a phenaethiaid newydd i'w hufuddhau. Sylweddolais yn fuan, fodd bynnag, fod yma deulu bach hapus yn cyd-weithio yn dda. Y mwyafrif o'r bobol yn Gymry Cymraeg ifanc, 'roedd pawb yn gyfeillgar ac yn barod iawn i'm dysgu, ac 'roedd y penaethiaid, er mawr ryddhad imi, yn ŵyr bonheddig!

O blith y bobol yma, y daethum o hyd i ffrindiau newydd, a dyma finnau 'rwan yn perthyn i 'glic' y cyfryngau! Y sect arbennig honno y soniodd fy ffrindiau adref gymaint amdani. Ond credaf fod bodolaeth 'clic' yn naturiol mewn unrhyw gymdeithas, ac yn anochel mewn dinas fawr lle mae cymaint o 'bobol ddwad' nad ydynt yn adnabod fawr neb ond eu cyd-weithwyr. Credaf fod Clwb Ifor Bach yn gymorth mawr i uno pobol ifanc Cymraeg y ddinas beth bynnag fo'u gwaith. Wrth feddwl, yr oedd gennyf un ofn arall, a hwnnw oedd ofn colli cysylltiad â'm ffrindiau gartref. Felly byddaf yn ceisio uno'r ddau fyd trwy wahodd fy ffrindiau am teulu i aros gyda mi yma, a mynd a ffrindiau Caerdydd i'r Gogledd gyda mi am benwythnosau.

Nid oeddwn yn poeni rhyw lawer am yr ochr gymdeithasol o fyw yng Nghaerdydd - gwyddwn fod digon o bethau i'w gwneud yma pe dewisiwn hynny. 'Roeddwn yn bwriadau ymuno hefo'r Aelwyd a'r Capel, a gyda chôr cerdd dant merched y clywais sôn amdanynt. Ond nid felly y bu. Darganfyddais nad oedd yr un teyrngarwch gennyf tuag at gôr ac Aelwyd yng Nghaerdydd ag â oedd gennyf gartref, ac felly doedd dim ymroddiad gennyf - 'roedd rhywbeth gwell i'w wneud ar y noson bob tro. Hefyd, er imi fwynhau y gwasanaeth yng Nghapel Crwys, sylweddolais mai er mwyn y gymdeithas o fewn y capel yr awn mor amal adref. 'Rwyf yn colli cael perfformio mewn Noson Lawen a bod yn aelod o gymdeithas glos ble mae pawb yn angenrheidiol iddi hi, ond er imi fod yma yn byw ers Ionawr 1983, efallai ei bod yn gynnar eto i deimlo fy mod yn 'perthyn'.

Byddaf yn mynd adref unwaith bob tair wythnos ac yn gwerthfawrogi'r distawrwydd, llonyddwch ac awyr iach y wlad, a moethusrwydd cartref! Braf hefyd yw gallu picio i'r dafarn gan wybod nad oes rhaid gwneud trefniadau ymlaen llaw i gwrdd â ffrindiau gan y byddaf yn adnabod ymron pawb sydd yno p'run bynnag. Ond brafiach fyth yw gwybod, pan fydd pwl bach o anniddigrwydd yn dod drosof yng Nghaerdydd, fy mod yn cael y gorau o ddau fyd ac fy mod wedi gwneud y penderfyniad iawn wrth symud yma.

Enys Roberts


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar ddydd Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.


# QWERTIwps

Ymddiheuriwn am unrhyw wallau yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd. Ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth mae Nans Couch wedi rhoi heibio'r gwaith llafurus o deipio'r papur. Mae'r pwyllgor yn estyn ei ddiolch diffiant iddi.

CHWAREUS

O,hybarch Aled Islwyn
Rhowch bwt o le i'm can
I ganu clod y mawrion,
Y mawrion wir a'r man
Y rhai sy'n cicio ffwtbol
A gwisgo'r crysau gwyrdd
Sef arwyr dewr y Cymric
a chriw da Aelwyd yr Urdd.

. . .

Y bechgyn rheini heini
Yng ngwyneb storm a gwynt
Sy'n troedio'r meysydd chwarae
I yrru'r bel i'w hynt
Ar bnawn dydd Sadwrn heulog
Neu nghanol llid y glaw
Bydd dewrion Clwb y Cymric
Yn ymladd yn y baw.

. . .

Bydd pel ar hyd yr asgell
A thafliad pell a'r llaw
Cic gosb o'r smotyn,hwyrach
A gol ddaw maes o law.
Mae'r golwr yn ei elfen
A'r cefnwyr chwith a de
Yn sgubo'r gwahanglwyfion
Yn ol,yn ol i'w lle.

. . .

Mae'r blaenwyr hwythau hefyd
Yn pwyso,pwyso nawr,
Gan ennyn amddiffynwr
I'W gamgymeriad mawr.
Cyn codi'r bel yn gelfydd
Dros ben y ceidwad ffol
A'i phlannu o fewn y rhwydi
Gan sgorio'r chweched gol.

. . . . . . .

A dyna'r chwiban olaf
Mae'r gelyn ar y llawr
Yn credu fod y Duwiau
O blaid y Cymric nawr.
Mae'r tymor ar ei derfyn
Ennillwyd pob rhyw gem
A'r gynghrair yn eu meddiant
A wyneb pawb yn wen.

. . . . . . .

Yn wen nes imi ddeffro
O'm breuddwyd,hunlle'n wir
A dyma ymddiheuro
A mentro deud y gwir.
Mae'r stori'n dra gwahanol
Mae ambell gem yn dda,
Mae'r lleill yn wael uffernol
Mae'n gwilydd bod ar y ca'.

. . .

Rhowd cweir go dda i'r Splotwyr
Pump gol yn wir i ddim.
Dwy gol i Gareth "Seren"
Ei wib yn fwy na chwim.
Ond trychinebus wedyn
Yn erbyn Cwrt-Y-Vil
Dwy gem a cholli rheiny
Camgy eriadau fil.

. . . . . . .

St.Mary's wedyn,hapus
Saith gol i ddim o'n plaid
Ac Allied Steel yn debyg
(Rhai gwan yw'r rhain mae'n rhaid)
A'r aelwyd hwythau'n ceisio
Rhoi tro ar fyd mae'n siwr
Cyn colli i fechgyn Grangetown
A Cardiff Hibs a'u stwr.

. . . . . . .

Cyfartal 'rwythnos wedyn
A Wells Unedig iawn
Ond mawredd mawr be wedyn
Sgor rygbi fawr a gawn.
Colli o un i bymtheg
I'r brig â Cardiff Crest
Does ryfedd fod na gwyno
"Pa un oedd Georgie Best"

. . . . . . . .

Ond chwarae teg i'r hogia
Fe fynnwyd taro 'nol
A dreigiau Cardiff Dragons
Gafodd gicio ein pen-ol
Fe sgoriwyd dwsin taclus
A dim ond un i'r lleill
Pwy wyr pa ryfedd wyrthiau
Yn fwy sydd ar y gweill?

. . . . . .

A dyna ddiwedd stori
Wel ar y maes mae'n saff
Ond rhaid cofnodi'r ffeithiau
A'u plethu hwy yn rhaff.
Hei lwc i Ann a Catrin
A Ken,y gwr a'r tad
Un eto i olchi'r crysau
A llnau y sgidiau'n rhad.

. . . . . .

Fe dorrwyd briach Rich Bala
Heb sylweddoli,bron
Ond ganed mab i'r teulu
I'w gadw ef yn llon.
A chlywyd sibrwd hefyd
Fod Wyn ar ei ffordd nol
I lenwi sgidiau'r blaenwr
"Plis,Sian,gai fynd yn ol?"

. . .

A stori fach i orffen
Am un a wn yn iawn
Yn mynd i'r gwaith rhyw fore
A phocedi'r siwt yn llawn.
Pwy ond yr Huws a allai
Wneud smonach fawr o hyn,
Rhoi allwedd car y musus
Yng nghanol ei arian gwyn!

B.L.Aenwr a'i cant.

# PYTIAU

Braf gweld fod Arthur Emyr - un o gyn-ddisgyblion Bryntaf yn holliach unwaith eto ac yn ol ar yr asgell yn nhim Abertawe.Tybed pa mor hir fydd rhaid aros i'w weld yn cyfnewid crys gwyn am un coch?


...........

Mae cyfarfodydd Cymdeithas Gymraeg Radyr yng Ngwesty'r Tynant yn dal i fod yn boblogaidd.Cafwyd noson ddiddorol dros ben pan fu'r Barnwr Dewi Watcyn Powel yn olrhain hen hanes pentre Radyr.Swynwyd y gynulleidfa gan fanylder ei wybodaeth am fro ei febyd a'i hanesion am hen gymdeithas. Yn ystod y Parti Nadolig aelodau o Glwb Cadw'n Heini'r Dynion fu'n darparu'r adloniant. Nid y lleiaf ymhlith y talentau oedd Eddwyn Richards a'i ddawn ardderchog o adrodd stori ddigri.

Llongyfarchiadau i Dafydd a Hilary Lloyd ar eu priodas dros y Nadolig. Mae Dafydd yn athro Almaeneg yn Ysgol Glantaf ac mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghasnewydd.

. . . . . . .

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 39



AR DRAWS:

1. Chwalwyd man a lonnai Llyr yng Nglwyd. (8,2,3)

10.Byddai yn cynnau canol y das o chwith---yr Hen Foi a'i deulu.(9)

11.Darlun enwog o ran o Jerusalem.(5)

12.Caf dy wên yn union ar ôl hyn.(5)

13.Ei roi mewn trefn ar ôl rhywun amgen,a hynny mewn arddull gwahanol.(9)

14.Chwe dafn a ddengys y berthynas eithaf o waed.(6,2)

16.Dogfenni'r hynafiaid sy'n cofnodi 14 ar draws.(6)

19.Caed moch gwyllt yn y lle hwn.(6)

20.Cychwynnai D.E. ei charu'n orffwyll.(8)

22.Cefnogaeth uchelwr sy'n drysu'n waeth nag o'dd.(9)

24.Cot yn iawn i'r Gog.(5)

25.Mae'r had yn dechrau tyfu.(5)

26.Yr hyn y gellir ei fynegi ar dywod y môr lle mae bwlch(9)

27.yr 1 mewn 10---does fawr ohono! (1,5,3,1,3)

I LAWR:

2.Gyrrwyd o'i wlad am achosi cynnwrf i dy wallt du.(9)

3.Trigfan deg ar draws.(5)

4.Rwy'n mynd i adael(2,6) onide byddaf yn ddistaw(2,1,5)

5.Cofnod byr fod Don a Dai yn troi ar ei gilydd.(6)

6.Ai ar y noson hon y gellir canfod y blaned nesaf i mewn? (3,6)

7.Anniben tost yw rhannau tlotaf Lerpwl.(5)

8.Pwnc yr anghytundeb sy'n ennyn gŵg ar ôl cael golwg arall arno.(6,1,6)

9.Bum yn troi ac yn trosi am gliw syml,hawdd,i'r boi,ond fe welwch annichonolrwydd y dasg.(13)

15.Bum yn crefu drosto wrth glywed sŵn afon Sbaen yn ei lais.(9)

17.Y fath sen du camweddus ynghanol un o afonydd Caerdydd lle ceir cartrefi'r tlodion.(9)

18.Tylwyth reit gartrefol.(8)

21.Tebycaf i ddŵr y môr yw'r hyn a wnaf i gadw'r mochyn.(6)

23.Afon Dolgellau.(5)

24.Un dda am lygota yw ein --- -- (3,2)

DATRYSIAD RHIF 38

AR DRAWS:1.CYMREICTOD;6.ACEN; 10.FEL PIN MEWN PAPUR; 11.TRALLODION;12;LARWM; 13.BREST;15.ENFAWR;19.BRYCHNI; 20;DAMEG;23.YMSON;24.GWARGRYMA; 26.GWERINLYWODRAETH;27.GWŶR; 28.LLWYDDIANNUS.

I LAWR:1.CYFATEB;2.MELFARED; 3.EGINO;4.CWMNI MERCH; 5.CLWYN;7.CWPWRDD;8.NORTHMYN; 9.APELIWYD;14.TARANAIS;16.FE'I LLANWODD;17.AMRYDDAWN;18.DI-YSGOG;21.GWARTHUS;22.OS FELLY; 24.GO LEW;25.GYDIA.

CYSTADLEUAETH RHIF 38

Daeth deg datrysiad cywir i law. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo R.James,4,Narberth House, Yr Eglwys Newydd.Mae tocyn llyfr Cymraeg am £5 ar ei ffordd iddo/iddi.

Enwau'r naw arall oedd:Tecwyn Vaughan Jones,YTyllgoed(a Sain Ffagan);Ann Dilys,Y Tyllgoed; B.H.,Cyncoed;R.Jones,Y Rhath; John Hughes,Llanishen;"Prentis", Trelai;Shan Emlyn,Cyncoed; M.Davies,Llandaf;a D.J.W., Pentwyn.

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Ysgrifennwch eich enw(neu ffugenw) a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon erbyn Chwefror 20 at ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

...............